

Cofion

- Cyflwynwn bob un o'r cleifion a'u teuluoedd i ofal yr Arglwydd heddiw eto. Danfonwn ein cofion atynt, gan hyderu y byddant yn profi daioni Duw yn eu cynnal a'u gwarchod y diwrnodau hyn.
- Yn yr un modd, parhawn i gofio am ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Elsie May Edwards, Llansannan (Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur); Mrs Morfudd Williams, Henllan (Tŷ Cariad, Abergele); Mrs Gwenfyl Williams, Llansannan (Bryn yr Eglwys, Pentrefoelas); Mrs Elizabeth Hughes, Llansannan (Plas Eleri, Dinbych); Mrs Menna Owen, Cefn Meiriadog, Miss W J Roberts, Cefn Meiriadog a Mrs Edith Maloney, Henllan (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal Duw.
- Cofiw'n hefyd am y rhai sydd wedi cyfarfod â phrofedigaeth yn ystod yr wythnos ddiwethaf a gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos y dyddiau hyn.

Operation Christmas Child

Â ninnau ynghanol ein digonedd, beth am lenwi bocs esgidiau gyda nwyddau o bob math i'w roi yn anrheg i blant llai ffodus na ni y Nadolig hwn? Mae'n siwr i chi glywed tystiolaeth yn ystod yr wythnos am ddiolchgarwch a llawenydd y plant sy'n eu derbyn, fel ag y mae'r llun isod yn ei ddangos. Mae taflenni sydd ag awgrymiadau o'r hyn a allwn ei gynnwys yn y bocs ar gael ymhob un o eglwysi'r Fro, neu cysylltwch â Mair i gael yr wybodaeth ar ebost. Os nad yw eich ysgol leol yn casglu'r bocsys



eleni, ewch â'ch bocs i'ch eglwys leol **erbyn Tachwedd 13eg**, ac fe wnawn ni ofalu eu bod yn cyrraedd pen eu taith. (Nodyn i'r eglwys: Os na fydd rhywun yn dod i Lansannan i Oedfa'r Fro y noson honno, gall un ohonom ddod draw i gasglu'r bocsys ddechrau'r wythnos.)



I ddod

- **CYFARFOD BLYNYDDOL EGLWYS UNEDIG LLANSANNAN** nos Fawrth, Tachwedd 22ain am 7.30.
- **GOFAL BUGEILIOL GYDA HENOED, AC EFO BOBL SY'N WYNEBU DIWEDD OES** – Hyfforddiant gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru yng Ngholeg y Bala, dydd Iau, Rhagfyr 1af o 10.30 – 3.00 i weinidogion, ymgeiswyr ac eraill sy'n ymweld â chleifion. Mae'r hyfforddiant, fydd trwy gyfrwng y Saesneg, am ddim. Fe ddarperir cinio, ond rhaid archebu lle ymlaen llaw. Rhowch eich enw i Mair erbyn Tachwedd 18fed os oes gennych ddiddordeb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 6^{ed} Tachwedd 2016

Darlleniad y Dydd
Rhufeiniaid 15:1-6
(BCND tud.178 / BCN tud.163)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso cynnes i chi gyd i'r Oedfaon dros Fro Aled. Diolchwn am y fraint o allu cyfarfod gyda'n gilydd yn gyhoeddus i foli ac i ddysgu mwy am Y Duw byw heb ofn cael ein herlid na'n bygwth. Gweddiwn y byddwn yn sylweddoli fwy a mwy bob dydd gymaint ydy ein dyled i'r Arglwydd. Yn ddiweddar, dwi wedi bod yn meddwl am ddylanwad Duw ar ein bywydau ni. Yr effaith amlycaf ydy dod yn Gristion – newid cyfeiriad ein bywydau a dilyn ewyllys Duw. Ond tybed a oes effeithiau eraill ar ein bywydau ni?

Sut mae bod mewn perthynas gyda Iesu yn effeithio ar ein bywydau bob dydd? Dyma i ni gwestiwn sydd, ar un wedd, yn rhwydd iawn i'w ateb, ond wrth edrych yn ddyfnach, yn un sydd ychydig yn anoddach. Ar un llaw, mae effaith Iesu ar Gristnogion yn un enfawr – rydym ni wedi ein hachub o farwolaeth ac rydym yn rhydd i fyw bywyd i'w lawnder. Rydym yn ymdrechu i roi ewyllys Duw yn gyntaf o flaen ein hewyllys ein hunain ac i fyw bywyd yn llawn o weithredoedd da (Effesiaid 2:10). Ar y llaw yma felly, mae effaith Iesu arnom yn gallu ymddangos yn unigolyddol – fod y newid i gyd ynom ni ac ddim yn cael effaith ar bobl eraill. Ond dewch i ni edrych yn ddyfnach ar y cwestiwn ac astudio beth mae ein darlleniad heddiw – Rhufeiniaid 15:1-6 yn ei ddweud.

Yma mae Paul yn ein hannog i ystyried pobl eraill, a'u gwneud nhw'n gryf. Er fod ein perthynas gyda Iesu yn ganolog i'n bywydau ni, mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r berthynas yma i'n gwthio ymlaen i roi cymorth i eraill. Dylai'r rhai sy'n sicr o'r hyn sy'n wir gymryd gofal o'r rhai sy'n ansicr o'u ffydd. Rydym ni'n cael ein atgoffa o'r ffaith na arbedodd Iesu ei hun oddi wrth sarhâd a phoen, ond yn hytrach fe ddioddefodd er mwyn i ni gael bywyd. Meddyliwch am y ffordd mae Iesu yn trin ei ddisgyblion a'r bobl sydd eisiau gwybod mwy amdano. Ydy o'n gwneud hwyl am eu pennau neu yn eu dilorni am eu diffyg dealltwriaeth? Nac ydi! Mae'n amyneddgar efo nhw, gan wybod eu bod nhw – fel ni – yn ffaeledig. Dyna sut ydym ni'n cael ein galw i fod hefyd – yn amyneddgar ac yn heddychlon gyda phobl sydd yn ansicr o'r Efyngyl.

Mae Iesu'n gorchymyn i ni i garu yr Arglwydd ein Duw â'n holl galon, enaid a meddwl. Yna mae'n rhoi'r gorchymyn i ni garu ein cymydog fel rydym yn caru ein hunain. Mae gweddi Paul yma yn cynnig yr un neges.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Gwion

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 8^{fed} ➤ **Torri Syched y Dynion** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Mercher – 9^{fed} ➤ **Cynhadledd Undydd Dydd Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd** yng Nghanolfan Ebenezer, Caernarfon o 10.00 – 3.00.
- **Cyfarfod Plant Ysgol Pant Pastynog** o 3.00-4.30.
- **Torri Syched y Merched** – seiat yn Heulfryn am 7.30.
- Iau – 10^{fed} ➤ **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuencid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.
- **Astudiaeth Feiblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones, a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Mawrth – 8^{fed} ➤ Cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.
- Mercher – 9^{fed} ➤ Cynhelir Cinio Jangl yn Ysgol Bro Aled am 12.00. Enwau i Eifion Jones, Y Gorlan (870656) **erbyn dydd Sul, Tachwedd 6ed**, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Bydd y Parch. Trefor Lewis yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel ac yn Saron am 10.00.
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Mercher – 9^{fed} ➤ Bydd Cymdeithas Henllan yn cyfarfod am 7.30 pryd y bydd Mrs Alwena Tomos, Henllan a'i merch, Ffion, yn dweud hanes eu taith i China. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul i'r plant a'r oedolion yn Groes am 10.00, a hefyd yn Henllan am 10.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 6^{ed} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa deuluol i'r daith ac yn gweinyddu'r cymun yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf – 13^{eg} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 2.00.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Darlleniad Wythnos Nesaf

Jeremeia 29: 10-14 (BCND tud.715 / BCN tud.652)